**Cofnodion Cyfarfod Blynyddol Cyngor Tref Dinbych, Nos Fercher Rhagfyr 9fed 2020 am 6.30yh trwy Zoom.**

**Presennol:** Cynghorwyr Gaynor Wood-Tickle, Rhys Thomas, Catherine Jones, Roy Tickle, Gaynor Morgan Rees, Alyn Ashworth, Philip Stevens, Dyfrig Berry, Lara Pritchard, Sylvia Jennings & Carla Hargraves; Jenny Barlow (Clerc y Dref) & Carys Jones (Cynorthwyydd Dinesig a Digwyddiadau).

**Arsylwi:** Lynn Thomas, Y Parchedig Ganon Pauline Walker, Medwyn Jones & Nathan Jones.

1 **Gweddïau:** Agorwyd y cyfarfod trwy weddi gan Gaplan y Maer, Y Parchedig Ganon Pauline Walker

2 **Ymddiheuriadau:** Cyng Rob Parkes

3 **Adroddiad Blynyddol y Maer:** Cyflwynodd y Maer, y Cyng Gaynor Wood Tickle adolygiad o'r flwyddyn ddinesig 2019/2020 gan gyfeirio at uchafbwyntiau'r prif ddigwyddiadau oedd wedi cymryd lle. Diolchodd i Gôr Godre Aran a Chôr Meibion Dinbych am roi cyngherddau a chodi £3190.00 i'r elusennau a ddewiswyd ganddi.

4 **Cyflwyniadau gan y Maer y Cynghorydd Gaynor Wood-Tickle:** Cyflwynodd y Maer siec yr un i'r 3 elusen a ddewiswyd - Samariaid, Brake a Cynnig am £1063.33 a dywedodd y byddant yn cael eu hanfon trwy'r post mewn amser.

5 **Ethol Maer am y Flwyddyn 2020-2021:** Cynigiodd y Cyng Catherine Jones, eiliwyd gan y Cyng Rhys Thomas a phenderfynodd ethol y Cyng Gaynor Wood Tickle yn Faer Dinbych ar gyfer y Flwyddyn Ddinesig 2020/2021.
Darllenodd a llofnododd y Cyng Gaynor Wood-Tickle y Datganiad Derbyn Statudol yn derbyn y swydd ym mhresenoldeb Clerc y Dref, y Cynigydd a'r Ail gynigydd.

6 **Anerchiad y Maer: Y Cynghorydd Gaynor Wood-Tickle:** Diolchodd y Maer newydd ei hethol i'w Chynigydd a'i Seconder ac anerchodd y Cyfarfod. Dywedodd y Maer y Cynghorydd Gaynor Wood Tickle mai ei helusennau ar gyfer 2020/2021 fydd Tŷ Gobaith, Achub Anifeiliaid Gogledd Clwyd a Mind Dyffryn Clwyd.

7 **Ethol Dirprwy Faer:** Cynigiodd y Cyng Gaynor Wood Tickle, eiliwyd gan y Cyng Alyn Ashworth a phenderfynodd ethol y Cyng Rhys Thomas yn Ddirprwy Faer ar gyfer y Flwyddyn Ddinesig 2020/2021.
Darllenodd a llofnododd y Cynghorydd Rhys Thomas y Datganiad Derbyn Statudol yn derbyn y swydd ym mhresenoldeb Clerc y Dref, y Cynigydd a'r Ail gynigydd.

8 **Dychweliad Presenoldeb ar gyfer y flwyddyn 2019/2020:** Cyfeiriodd y Maer at y presenoldeb ar gyfer y flwyddyn ddinesig 2019/2020. Mabwysiadwyd a nodwyd.

9 **Penodi Caplan y Maer:** Penododd y Maer y Parchedig Ganon Pauline Walker Caplan ar gyfer y Flwyddyn Ddinesig 2020/2021

10 **Cynllun lles:** Nodwyd hyn

11 **Y Fendith:** I ddod â'r noson i ben, rhoddodd Caplan y Maer y Parchedig Ganon Pauline Walker y Fendith.

Caeodd y Maer y cyfarfod am 6.46yh.

Llofnod:..................................................

Dyddiad:..................................................